# Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010

**2010 mccc 1**

## RHAN 1

TLODI PLANT, CYFLEOEDD CHWARAE A CHYMRYD RHAN

### PENNOD 1

DILEU TLODI PLANT

*Gwasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant*

**7 Dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau bod gofal plant ar gael yn ddi-dâl**

(1) Rhaid i awdurdod lleol sicrhau bod gofal plant o ddisgrifiad rhagnodedig ar gael yn ddi-dâl am y cyfryw gyfnodau ag a ragnodir ar gyfer pob plentyn o ddisgrifiad rhagnodedig yn ei ardal—

(a) sydd wedi cyrraedd y cyfryw oedran ag a ragnodir, ond

(b) sydd o dan oedran ysgol gorfodol.

(2) Mae'r ddyletswydd hon yn ddarostyngedig i ddarpariaethau rheoliadau a wneir o dan adran 10(1)(c).

(3) Yn yr adran hon ystyr "gofal plant" yw—

(a) gwarchod plant neu ofal dydd o fewn ystyr Rhan 2 y mae'n ofynnol i'r darparydd fod wedi'i gofrestru ar ei gyfer o dan y Rhan honno, neu

(b) gofal a ddarperir gan berson o ddisgrifiad a gymeradwyir yn unol â chynllun a wnaed gan Weinidogion Cymru o dan adran 12(5) o Ddeddf Credydau Treth 2002 (p. 21).

**8 Gwasanaethau cymorth i rieni: pwerau awdurdod lleol**

(1) Caiff awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cymorth i rieni plant, sicrhau eu darparu neu gymryd rhan wrth eu darparu.

(2) Ni chaiff awdurdod lleol godi tâl am unrhyw beth a ddarperir o dan is-adran (1).

(3) Yn yr adran hon ac yn adran 10, ystyr "gwasanaethau cymorth i rieni" yw unrhyw un neu unrhyw rai o'r canlynol—

(a) hyfforddiant mewn sgiliau rhianta;

(b) unrhyw wasanaeth arall i hybu neu hwyluso rhianta effeithiol.

## 9 Gwasanaethau cymorth iechyd: pwerau awdurdod lleol

(1) Caiff awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau cymorth iechyd, sicrhau eu darparu neu gymryd rhan wrth eu darparu.

(2) Ni chaiff awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau nyrsio, sicrhau eu darparu neu gymryd rhan wrth eu darparu o dan is-adran (1) ar gyfer unrhyw ran o'i ardal heb gydsyniad y Bwrdd Iechyd Lleol ar gyfer y rhan honno o'i ardal.

(3) Ni chaiff awdurdod lleol godi tâl am unrhyw beth a ddarperir o dan is-adran (1).

(4) Yn yr adran hon ac yn adran 10, ystyr "gwasanaethau cymorth iechyd" yw gwasanaethau sy'n darparu cymorth mewn perthynas â iechyd plant neu rieni plant (i'r graddau y maent yn angenrheidiol i sicrhau llesiant eu plant), ar wahân i gymorth sy'n golygu darparu gwasanaethau meddygol, deintyddol, offthalmig, neu fferyllol.

## 10 Rheoliadau am wasanaethau i fynd i'r afael â thlodi plant

(1) Caiff rheoliadau—

(a) ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau darparu gwasanaethau cymorth i rieni o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl i rieni rhagnodedig plant yn ei ardal;

(b) ei gwneud yn ofynnol bod awdurdod lleol yn sicrhau darparu gwasanaethau cymorth iechyd o ddisgrifiad rhagnodedig yn ddi-dâl i blant rhagnodedig neu i rieni rhagnodedig plant yn ei ardal;

(c) darparu bod y ddyletswydd yn adran 7(1) i fod yn gymwys yn unig mewn rhan neu rannau o ardal awdurdod lleol;

(d) darparu bod gofyniad mewn rheoliadau o dan baragraff (a) neu (b) i fod yn gymwys yn unig mewn rhan neu rannau o ardal awdurdod lleol.

(2) Caiff rheoliadau o dan baragraff (c) neu (d) o is-adran (1) (ymysg pethau eraill)—

(a) pennu ardal neu ardaloedd o fewn ardal awdurdod lleol;

(b) darparu ar gyfer pennu ardal neu ardaloedd gan awdurdod lleol.